
# Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

## Bwrdd Hybu Cig Cymru (HCC

## Penodi Aelodau'r Bwrdd

## Dyddiad cau:  12 Ionawr



## Cynnwys

**Gwneud cais**

**Atodiad A: Rôl a chyfrifoldebau HCC**

**Atodiad B: Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person**

**Atodiad C: Y broses ddethol**

## Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb mewn cael eich penodi’n aelod o Fwrdd Hybu Cig Cymru. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl Aelodau'r Bwrdd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau HCC a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn Penodiadau Cyhoeddus - (tal.net)

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd Aelod o'r Bwrdd ac yna cliciwch ar y botwm ‘Gwneud cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith.

Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen i gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy’ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn cael gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

**Datganiad Personol**

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi wrth gyflawni amcan penodol. Helpwch y panel dethol trwy ddangos yn glir pa dystiolaeth sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraff i bob maen prawf.

**Peidiwch â gadael i’ch datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen o hyd. Gallai’ch cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.**

**CV**
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

**Amserlen fras**

| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | 12 Ionawr 2023 |
| Sifftio - wythnos yn cychwyn | 23 Ionawr 2023 |
| Cyfweliadau: | 15 ac 16 Chwefror 2023 |
| Penodi: | 01 Ebrill 2023 |

Noder, ni fydd ffurflenni cais a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried oni bai’ch bod wedi gofyn am addasiad rhesymol o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Bydd angen i'r rhai sy'n cael eu gwahodd i gyfweliad fod ar gael ar gyfer y dyddiadau canlynol: 15 ac 16 Chwefror 2023.

**Hyderus o ran Anabledd**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y model cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â chyflwr iechyd neu nam, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff wneud ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (“nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi roi tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae’n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu pobl anabl yn eu swydd a’u gyrfa. Os hoffech warant o gyfweliad, e-bostiwch publicappointments@gov.cymru.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon neu wrth ymgymryd â’r rôl fel aelod o’r Bwrdd cysylltwch â Maria Richards gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

**Cysylltiadau:**
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Am ragor o wybodaeth am rôl Hybu Cig Cymru a rôl Aelodau'r Bwrdd neu i drafod addasiadau rhesymol, cysylltwch â:

Maria Richards
Ffôn: 03000 255002
E-bost: Maria.Richards@gov.wales

Os hoffech ragor o help i wneud cais am y rôl hon, e-bostiwch PublicAppointments@llyw.cymru

Am ragor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i Penodiadau cyhoeddus | LLYW.CYMRU

**Atodiad A**

# GWYBODAETH I YMGEISWYR

## Rôl a chyfrifoldebau Hybu Cig Cymru (HCC)

### Cenhadaeth a chylch gwaith y sefydliad

Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC), sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth, yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Cafodd ei sefydlu yn 2003 a'i wneud yn gorff sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru yn 2007 ond mae'n cael ei arwain gan y diwydiant. Ei genhadaeth yw helpu i ddatblygu diwydiant cig coch proffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol yng Nghymru sy'n ymateb yn gystadleuol i dueddiadau marchnad sy'n newid yn barhaus.

Mae HCC yn gweithio gydag 20,000 o ffermwyr sy'n gynhyrchwyr cynradd, a chyda phroseswyr, arwerthwyr, cludwyr, manwerthwyr, gwasanaethau bwyd a defnyddwyr, gan gefnogi'r diwydiant i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw gyda Brexit, cytundebau masnachu newydd, a'r agenda cynaliadwyedd.

Mae brandiau Cig Oen a Chig Eidion Premiwm Cymru'n fyd-enwog, a chylch gwaith craidd HCC yw hyrwyddo a chefnogi'r brandiau hyn yn y marchnadoedd gartref a rhyngwladol, gan chwilio am a datblygu marchnadoedd allforio newydd. Mae gan HCC gyfrifoldeb cyfreithiol hefyd i warchod y dynodiad PGI Cig Oen Cymru a PGI Cig Eidion Cymru. Mae tua 35% o gig oen Cymru yn cael ei allforio bob blwyddyn ac mae diwydiant cig coch Cymru, sy'n cyflogi 60,000 o bobl yn uniongyrchol yng Nghymru, werth bron i £1 biliwn y flwyddyn.

Cyfanswm refeniw HCC yw tua £8m, gyda £4.5m ohono'n dod o'r Ardoll Cig Coch a godir ac a delir ar yr holl wartheg, defaid a moch a gynhyrchir yng Nghymru. Mae HCC yn derbyn hefyd tua £3.5m gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau Ewropeaidd. Mae'r sefydliad yn cynnal ymchwil a datblygu, yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi hyfforddiant ar gyfer pob rhan o'r gadwyn gyflenwi. Mae HCC yn weithgar mewn llawer o farchnadoedd pwysig ledled y byd: yn datblygu ac yn cryfhau cyfleoedd busnes i allforwyr cig coch o Gymru.

Mae is-gwmni HCC, EID Cymru, yn rheoli system electronig ar gyfer adnabod defaid ar ran Llywodraeth Cymru sy'n monitro ac yn olrhain cofnodion symud holl ddefaid Cymru. Cyn hir, bydd y system yn cynnwys yr holl symudiadau gwartheg wedi'u rheoleiddio, gan estyn cronfa ddata EID Cymru a rhoi cyfle pwysig i roi dealltwriaeth a gwybodaeth bwysig i gynhyrchwyr cynradd a'r diwydiant.

### Fframwaith cyflawni'r sefydliad

Mae HCC wedi'i rhannu'n bedair adran.

Mae'r **tîm Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol** yn gyfrifol am lunio ac arwain strategaeth gynaliadwyedd y diwydiant a'r gadwyn gyflenwi, gan sicrhau ffordd integredig a chyson o gyrraedd targedau cynaliadwyedd byd-eang a chryfhau'r diwydiant at y dyfodol. Bydd yn llywio ac yn goruchwylio'r darpar hyb gwybodaeth

busnes, gan ddylanwadu ar bolisi a chysylltiadau yn y dyfodol â'r llywodraeth am bolisi ac yn diffinio'r strategaeth farchnata ac ymgysylltu a'r cymorth a roddir i gadwyn gyflenwi'r sector.

Mae'r **adran Farchnata a Chysylltiadau Strategol** yn arwain y strategaeth a'r gwaith integredig ar gyfer marchnata, hyrwyddo ac ymgysylltu ar gyfer brandiau a chynhyrchion cig coch Cymru ar raddfa fyd-eang, gan roi blaenoriaeth i ddatblygu cyfleoedd busnes a marchnadoedd newydd i allforwyr cig coch yng Nghymru, gan godi ymwybyddiaeth am y brandiau a dehongli ymddygiad a thueddiadau defnyddwyr.

Mae gan **adran Cyflawni'r Gadwyn Gyflenwi** atebolrwydd aml-swyddogaethol ar gyfer diffinio a chwmpasu mecanweithiau cymorth integredig i gadwyni cyflenwi, goruchwylio arbenigeddau ac ymyriadau sectorol ym mhob rhan o'r diwydiant a throsglwyddo gwybodaeth.

Mae'r **tîm Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol** sy'n gyfrifol am sicrhau bod ffrwd ariannu flynyddol y sefydliad o ryw £8m yn cael ei rheoli'n effeithiol a bod adroddiadau ariannol effeithiol yn cael eu paratoi, gan sicrhau gofal trylwyr ar arian cyhoeddus a rheoli systemau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg cadarn.

Cyhoeddodd HCC 'Y Ffordd Gymreig: Tuag at Arweinyddiaeth Fyd-eang wrth Gynhyrchu Cig Oen a Chig Eidion mewn modd Cynaliadwy' ym mis Rhagfyr 2020, sy'n cydnabod bod amaethyddiaeth ledled y byd ar fin gweddnewid, gyda lefelau digynsail o gyfleoedd a heriau posibl i sector cig coch Cymru. Mae'r Ffordd Gymreig yn haeru bod amaethyddiaeth da byw mewn sefyllfa gref i gyfrannu at ymdrech fyd-eang i liniaru'r newid yn yr hinsawdd trwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff. Mae hyn yn cyhoeddi dechrau pennod newydd, lle bydd ffermwyr yn greiddiol i'r atebion i sicrhau sector cig coch cynaliadwy, diogelu cyflenwadau bwyd rhyngwladol a gwella iechyd trwy'r byd

Dysgwch fwy am HCC drwy fynd i Hybu Cig Cymru.

**Atodiad B**

# Disgrifiad o Rôl a Manyleb Person Aelod o Fwrdd HCC

## Rôl a chyfrifoldebau

Rôl y Bwrdd yw rhoi arweiniad effeithiol sy'n diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion heriol, hyrwyddo safonau uchel o ran rheoli cyllid cyhoeddus, a chynnal egwyddorion rheolaidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am fonitro perfformiad HCC, gan sicrhau ei fod yn cyrraedd y nodau, yr amcanion a'r targedau perfformiad a nodir yn y cynlluniau corfforaethol a busnes.

Prif gyfrifoldebau'r Bwrdd fydd:

- Cefnogi'r gwaith o wireddu 'Gweledigaeth 2025 - Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol ar gyfer Sector Cig Coch Cymru hyd at 2025'.
- Cyfrannu at strategaeth gynaliadwyedd HCC a helpu i wneud 'Y Ffordd Gymreig' yn greiddiol ar draws y diwydiant da byw
- Hyrwyddo rôl arwain HCC ym mhob rhan o'r sector cig coch
- Cynrychioli HCC yn nigwyddiadau'r diwydiant a rhanddeiliaid ac mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru
- Cyfrannu at ddatblygu Cynllun Busnes HCC 2022-2026 a Chynllun Gweithredol HCC drwy'r Bwrdd.
- Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro effeithiolrwydd HCC a bod gan Aelodau'r Bwrdd wybodaeth gywir, amserol a chlir am berfformiad y cwmni.
- Cynnal llywodraethiant corfforaethol cadarn a sicrhau bod yr holl weithgareddau'n cael eu cynnal gydag uniondeb a phriodoldeb
- Chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo barn HCC i'r cyhoedd.

## Manyleb y person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad:

## Cymwyseddau Hanfodol

| |
|---|
| **DEALLTWRIAETH A FFOCWS STRATEGOL**<br><br>Arbenigedd strategol cynhwysfawr a'r gallu i ddeall a diffinio elfennau craidd strategaeth y sefydliad. |
| **DADANSODDI, GWRTHRYCHEDD, AC ANNIBYNIAETH**<br><br>Profiad o ddadansoddi a dehongli gwybodaeth gymhleth a manwl, a'r gallu i asesu tystiolaeth a sicrhau gwrthrychedd. |

| |
|---|
| **UNIONDEB A GWERTHOEDD MOESEGOL A DIWYLLIANNOL**<br><br>Mae tystiolaeth o safonau moesol a moesegol uchel, yn cynrychioli egwyddorion bywyd cyhoeddus. |
| **GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH ARIANNOL, GWLEIDYDDOL A SECTOROL**<br><br>Yn gallu dangos meddiant ar wybodaeth ac arbenigedd o ran y sector, diwydiant, arian neu dechnegol i wella hygrededd, proffil ac awdurdod y Bwrdd a'r sefydliad. |
| **SGILIAU CYFATHREBU, DYLANWADU A CHENHADU**<br><br>Y gallu i fod yn llysgennad huawdl a chredadwy dros y Bwrdd a’r sefydliad, ac i ddarparu negeseuon cyson a wedi'u halinio i randdeiliaid a'r cyfryngau. |
| **GWAITH TÎM A CHYDWEITHIO**<br><br>Profiad o weithio mewn tîm a chydweithio yn lleoliadau’r sefydliad gyda hanes o gyflawni nodau ar y cyd. |
| **CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**<br>Tystiolaeth o hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y diwydiant a’r gymuned ehangach. |

**Profiad a Gwybodaeth: Meini Prawf Arbenigol**

I sicrhau bod trawstoriad o sgiliau ar Fwrdd HCC, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ymgeiswyr sy’n meddu ar y setiau sgiliau/profiad canlynol ar lefel uwch

- Cyllid ac archwilio ariannol
- Marchnata (defnyddiwr/ masnach)
- Academia, - yn benodol mewn cynaliadwyedd neu ddisgyblaethau cysylltiedig
- Cyfreithiol a llywodraethu

Yn ogystal â'r sgiliau arbenigol, mae'n **ddymunol** bod gan Aelodau'r Bwrdd y sgiliau canlynol:

- Y gallu i herio mewn ffordd adeiladol
- Profiad o feithrin perthynas ag amrywiaeth o randdeiliaid
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i esbonio materion cymhleth yn glir ac yn gryno, gan ddangos parch at farn pobl eraill
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol
- Deall bywyd cyhoeddus ac egwyddorion llywodraeth dda

**Sgiliau’r Gymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn **ddymunol** yn achos y pedwar Aelod o’r Bwrdd

**Deall:** yn gallu deall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd
**Darllen:** y gallu i ddarllen deunydd syml am bynciau pob dydd a'u deall
**Siarad:** yn gallu cyfrannu at sgyrsiau syml sy'n ymwneud â'r gwaith
**Ysgrifennu:** yn gallu ysgrifennu gohebiaeth syml sy'n gysylltiedig â gwaith

Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau ganferched, bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl anabl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar y Bwrdd.

**Ffeithiau allweddol am y swydd**

**Lleoliad**
Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn Aberystwyth fel arfer gyda chyfarfodydd y diwydiant, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau yn cael eu cynnal ledled Cymru, y DU ac o bosib drwy'r byd.

Fodd bynnag, gellir cynnal rhai cyfarfodydd hybrid/ar-lein lle bo angen.

**Tâl**
Mae swydd Aelod Bwrdd HCC yn cael tâl o £300 y dydd.

Ceir hawlio costau teithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill a ysgwyddir wrth ymgymryd â gwaith y Bwrdd oddi wrth HCC o fewn y terfynau cydnabyddedig. Mae'n bosibl hefyd y byddwch yn gymwys i gael ad-daliad costau gofal plant/gofalu am berson hŷn/gofalwr cynorthwyol, wrth wneud gwaith ar ran y Bwrdd.

**Ymrwymiad Amser**
**Rhagwelir y bydd angen hyd at 12 diwrnod y flwyddyn** ar y rôl i fynd i gyfarfodydd y Bwrdd (a gynhelir yn Aberystwyth fel arfer) a chyfarfodydd diwydiant, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau (ar draws Cymru, y DU a’r byd).

**Hyd y penodiad**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd sy'n penderfynu ar hyd y penodiad, a fydd am hyd at dair blynedd.

**Atebolrwydd**
Penodir Aelodau Bwrdd HCC gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd ac maent yn atebol i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd trwy Lywodraeth Cymru am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad. Mae asesiadau o berfformiad Aelodau'r Bwrdd yn cael eu cynnal gan Gadeirydd HCC.

**Pwy sy’n gymwys**
Ni fydd ceisiadau gan gyfarwyddwyr sydd wedi’u gwahardd fel y'u diffinnir gan Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmni 1986 yn cael eu derbyn.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod bod yn aelod o Hybu Cig Cymru yn golygu na chewch fod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Anghymwyso Senedd Cymru 2020.
The Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020 (legislation.gov.uk)

**Gwrthdaro Buddiannau**
Dylech nodi'n arbennig y gofyn i chi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai wrthdaro â rôl a chyfrifoldebau Aelod o Fwrdd HCC, neu gael eu gweld felly, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi ag awdurdod y tu allan i'r rôl yn HCC.

Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld.

**Safonau mewn bywyd cyhoeddus**
Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma: https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies-june-2019[MAE FERSIWN GYMRAEG AR GAEL GAN YR UNED PENODIADAU CYHOEDDUS.

**Atodiad C**

# Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol.

**Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.**

Caiff y panel dewis ei gadeirio gan Maria Richards, Pennaeth Polisi Ffermio'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Catherine Smith, Cadeirydd HCC (Cynrychiolydd y Corff) a Prysor Williams, Uwch Ddarlithydd mewn Rheolaeth Amgylcheddol, Prifysgol Bangor (Aelod Annibynnol).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch chi hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau ar-lein.

Os byddwch yn cael gwahoddiad i gyfweld bydd gwahoddiad i gyfarfod yn cael ei anfon atoch. Bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' yn ôl y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o Fwrdd HCC, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru'n eich hysbysu. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O

ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion ynghylch pwy y dylech gysylltu â nhw i gael adborth am eich cyfweliad a'ch cais.

**Ymholiadau**
Oes gennych gwestiynau am eich cais, e-bostiwch PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

**Os nad ydych yn hollol fodlon**
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, e-bostiwch PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os ydych yn parhau'n bryderus ar ôl derbyn ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yn y cyfeiriad isod. Cysylltwch â:

Y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus
1 Horse Guards Road
London
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 6729 / 0207 271 0815
E-bost: publicappointments@csc..gov.uk